Chwaraeon RhCT
Sport RCT

@sportrct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

# Astudiaeth Achos

## Gwirfoddolwyr Chwaraeon RhCT – Dion a Conor

### *Dion*

Cwblhaodd Dion radd israddedig ym Mhrifysgol De Cymru ac ar ôl graddio roedd llawer o amser rhydd ganddo. Penderfynodd ddefnyddio'r amser i wirfoddoli gyda ni. Dechreuodd trwy gofrestru ar ein gwefan. Fe wnaeth un o'n swyddogion gyfarfod ag e a chynnig cyfle iddo mewn clwb pêl-droed lleol. Roedd Clwb Pêl-droed Llanhari a Bryn-cae yn chwilio'n daer am hyfforddwyr i gefnogi eu timau i blant bach ac iau. Daeth Dion i gyfarfod ag aelodau'r clwb, cwblhaodd wiriad â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a dechreuodd wirfoddoli.

Ar ôl i ni sylwi ar ei ymrwymiad i'r clwb, roedden ni'n awyddus i gynnig rhagor o gyfleoedd iddo. Roedden ni wrthi'n cyflwyno rhaglen Huddle Ymddiriedolaeth CBDC yn ei ardal leol. Derbyniodd Dion hyfforddiant a chytunodd i gyflwyno sesiynau Huddle bob dydd Gwener. Roedd yr adborth a gawson ni gan rieni/gwarcheidwaid yn gadarnhaol iawn. Fe ddywedon nhw bod Dion yn gyfeillgar ac yn darparu ar gyfer holl anghenion y merched, gan wneud sesiynau'n gynhwysol ac yn llawn hwyl. O ganlyniad i'w ymrwymiad rhagorol rydyn ni wedi cytuno i gefnogi Dion gyda rhywfaint o addysg hyfforddwyr a chyn bo hir bydd yn cwblhau cymhwyster Trwydded C.

### *Conor*

Ar hyn o bryd mae Conor yn astudio cwrs Hyfforddi a Datblygu Chwaraeon ym Mhrifysgol De Cymru. Yn rhan o'n partneriaeth gyda'r Brifysgol rydyn ni'n darparu hyfforddiant bob blwyddyn i fyfyrwyr. Yn ystod un o'r sesiynau ymarferol yma, gwnaeth Conor argraff ar ein carfan a chafodd ei annog i gysylltu â ni. Ymunodd Conor â'n cynllun gwirfoddolwyr ar ein gwefan a chafodd ei anfon ar unwaith i Ysgol Gynradd Llanhari lle roedd angen hyfforddwr aml-chwaraeon ar yr ysgol i gynnig clwb ar ôl ysgol. Roedd Conor yn frwdfrydig iawn ac roedd ganddo ddiddordeb mewn manteisio ar gyfleoedd pellach.

Cafodd Conor gyfle i gymryd rhan yn rhaglen Huddle Ymddiriedolaeth CBDC. Achubodd ar y cyfle i gyflwyno'r sesiynau bob wythnos. Roedd adborth gan rieni yn nodi ei fod yn berson agos ato ac yn gyfeillgar â'r plant a'i fod yn sicrhau bod pob sesiwn yn gynhwysol ac yn hwyl. Mae Conor yn awyddus i ddatblygu ac mae bellach wedi cwblhau hyfforddiant Ymddiriedolaeth CBDC yn seiliedig ar ei rhaglen newydd sef 'Teuluoedd Pêl-droed'. Mae hefyd wedi gwirfoddoli yn Ysgol Gynradd Cwmlai, gan gyflwyno sesiwn bêl-droed gymysg. Er mwyn cefnogi ei ddatblygiad yn hyfforddwr rydyn ni wedi talu i Dion gwblhau ei gymhwyster Trwydded C.

RHONDDA CYNON TAF